



Educational Resources in International Languages

Chwarren Isfandiblaidd



Translated from English to Welsh by:

Miss Megan Evans
MA (Translation Studies)
Cardiff University

Pennod 16 Chwarren Isfandiblaidd

Esiamplau o Gyfarwyddiadau i'r Ymgeisydd:

- Archwiliwch y dyn/menyw 59 mlwydd oed hwn/hon sy'n ymddangos â hanes byr o chwyd do dros ei ardal/hardal isfandiblaidd dde/chwith.
- Archwiliwch chwaren isfandiblaidd y claf hwn.
- Archwiliwch y chwyddo o dan yr ên.
- Aseswch y claf hwn am chwyddo yn y chwarran boerol.

Archwiliad y Chwarren Isfandiblaidd

1. Cyflwyniad a Chaniatâd

- A. Golchwch eich dwylo neu defnyddiwch gel alcohol
- B. Cyflwynwch eich hun i'r claf
- C. Gwiriwch adnabyddiaeth y claf (enw a dyddiad geni)
- Ch. Derbyniwch ganiatâd i archwilio
- D. Ystyriwch warchodwr, os yw'n addas
- Dd. Gofynnwch i'r claf i eistedd ar gadair neu'r gadair archwiliad.

2. Arolygu (gyda'r claf yn eistedd)

O'r blaen a'r ochr:

Sut mae golwg cyffredinol y claf a'i statws maethol?

Gofynnwch i'r claf godi ei ben/phen yn ôl gan bwyll (ymestyniad o'r gwddf)

- Oes unrhyw lymphiau amlwg, chwyddu neu anghymesur o dan y mandibl?
- Ydy'r croen dros y lwmp yn ymddangos wedi'i ymestyn, yn llidus neu'n heintiedig?
- Oes pwnctwm gweledig?
- Oes unrhyw greithiau neu ffistwlau?
- Oes unrhyw newidiadau ôl-radiotherapi i'r croen? (e.e. telangiectasia (gwythiennau wedi'u lledaenu yn achosi llinellau a phatrymau coch fel edau ar y croen))?
- Oes yna unrhyw arwydd neu dystiolaeth o anghymesuredd wynebol?

Nodwch: Mae gan y chwarran isfandiblaidd llabedu dwfn, sy'n gysylltiedig i'r cyhyr mylohyoid.

Mae'r llabed arwynebol yn gorwedd yn y triongl isfandiblaidd sy'n is nag hanner ôl y mandibl, o fewn y ffosa isfandiblaidd. Mae'r llabed ddofn yn bachu o gwmpas ffin ôl y mylohyoid ac yn gorwedd ar yr arwyneb ochrol y cyhyr hyoglosws, yn ochrol i wraidd y tafod.

3. Archwiliad O Fewn y Geg

- Gofynnwch i'r claf agor ei geg/cheg
- Nodwch os oes gan y claf genglo (anhawster agor y geg oherwydd poen)
- Arolygwch y ceudod geneuol gan ddefnyddio ffynhonnell golau dda
- Gwiriwch y gwefusau am friwio (sicrhewch bod modd diystyru Cارسinoma Celloedd Cennog (SCC) ac achos nodau lymff isfandiblaidd wedi'u helaethu).
- Cyflwr y dannedd: dannedd ar goll; staenio nicotin; pydredd dannedd; crawniad deintiol
- Deintgig: llid y deintgig; periodontitis; briwio.
- Gofynnwch i'r claf godi ei dafod/thafod i do ei geg/cheg ac aseswch lawr y geg.
- Aseswch am sialolithiasis y chwarran isfandiblaidd (carreg calcheiddiedig yn rhwystro ysgarthiad y chwarran isfandiblaidd) a sialoadenitis y chwarran isfandiblaidd (o ganlyniad i sialolithiasis neu heintiad).

Nodwch: Mae sialolithiasis y chwarran isfandiblaidd yn fwy cyffredin nag sialolithiasis y chwarran barotid oherwydd: (a) cynnwys mwcws uwch; (b) crynodiad uwch o galsiwm a ffosffad; (c) mwy o alcali; (ch) dwythell hwy; a (d) draenio yn erbyn disgrychiant.

- Edrychwch am unrhyw gochni o gwmpas y ddwythell a rhedlif gweledig.

Nodwch: Mae'r ddwythell isfandiblaidd (dwythell Wharton) yn 5cm o hyd a 2-4mm o ddiamedr. Mae i'w ganfod yn dod o'r chwarren ddofn rhwng y mylohyoid, y nerf isdafodol a'r cyhyrau genioglossws. Mae'n agor fel 1-3 o agorfeydd wrth waelod ffrwynig y tafod yn ddwyochrog (yn cael ei adnabod fel carynglau isdafodol). Mae'r nerf dafodol yn perthyn yn agos i'r ddwythell isfandiblaidd; yn gyntaf mae'r nerf yn ochrol, wedyn yn is, ac yn olaf yn fedial.

4. Archwilio trwy deimlo â llaw

- Rhowch wybod i'r claf eich bod ar fin dechrau teimlo ochr isaf ei ên/gên â'ch llaw. Gofynnwch a ydynt yn teimlo unrhyw boen neu dysterwch.
- Symudwch y tu ôl i'r claf a theimlwch am bresenoldeb unrhyw lymphiau oddi tan ongl a chorff y mandibl.
- Cwblhewch deimlo'r chwarren/chwyddi â dwy law.
 - Teimlwch y gwddf yn allanol gydag un bys a gosodwch eich bys arall, sydd wedi ei orchuddio â maneg, i mewn i geudod y geg. Teimlwch unrhyw lymphiau canfyddadwy yn ysgafn o'r ddwy ochr.
 - Teimlwch lawr y geg er mwyn asesu unrhyw lymphiau a'r ddwythell isfandiblaidd.
 - Teimlwch waliau ochrol y geg er mwyn asesu'r ddwythell barotid.

Os yr ydych yn darganfod lwmp, disgrifiwch ei:

- Safle (unochrog neu ddwyochrog)
- Maint
- Siâp
- Ymylon/arwyneb
- Ansawdd/Pa mor gnepynnaidd ydyw
- Amrwywiad
- Cywasgadwyedd
- Y gallu i'w leihau
- Sefydlogrwydd/Gallu i glymu
- Tynnerwch
- Presenoldeb pwnctwm
- Gwres

Os yw'n senario wedi-llawdriniaeth â chlaf sydd wedi derbyn llawdriniaeth ar y chwarren isfandiblaidd yn ddiweddar, aseswch yn benodol am:

- craith, sinws, ffistwla, heintiad clwyf.
- cyfanrwydd nerfau: cangen mandibl ffiniol o nerfau wynebol, tafodol, isdafodol i'r mylohyoid.

6. I Gwblhau Archwiliad y Chwarrren Isfandiblaidd:

Datganwch y hoffech:

- Asesu am symptomau cyfansoddiadol perthnasol (e.e. newid i'r chwyddu yn gysylltiedig â phrydau, ceg a llygaid sych, a cholled pwysau).
- Teimlo am unrhyw chwyddu arall yn y chwarrren boerol.
- Archwilio'r nodau lymff yn yr ardal (fel y byddech yn gwneud am unrhyw lwmp yn y gwddf).
- Gwneud archwiliad llawn clust-trwyn-gwddf.

7. Diolchwch i'r claf.

8. Golchwch eich dwylo.

9. Os gofynnir neu os yw amser yn caniatáu, crynhöwch eich darganfyddiadau i'r arholwr.

10. Gadewch yr ystafell neu'r cuddygl gan gau'r drws neu'r llen y tu ôl i chi.**BYDDWCH YN BAROD I ATEB CWESTIYNAU AM:**

- Beth yw anatomi'r chwarren isfandiblaidd a sut y byddech yn ei nodi ar yr arwyneb?
- Beth yw trefn y ddwythell isfandiblaidd?
- Beth yw achosion chwyddo yn yr ardal isfandiblaidd? Enwch rai diagnosau gwahaniaethol.
- Beth yw'r amodau awto-imiwn sy'n effeithio'r ardal isfandiblaidd? (Yn bennaf syndrom Siögren a chlefyd Mikulicz.)
- Enwch rai o diwmorau anfalaen a malaen y chwarren isfandiblaidd.
- Sut y byddech yn ymchwilio ac ymdopi â lwmp yn y chwarren isfandiblaidd?
- Pa strwythurau sydd mewn perygl pan fod triniaeth yn cael ei wneud ar y chwarren isfandiblaidd?
- Sut y byddech yn ymdopi â cherrig yn y chwarren boerol (sialolithiasis)?



DOCTORS ACADEMY

BETTER EDUCATION. BETTER HEALTH.

Doctors Academy is a UK-based International Non-Profit Organisation comprising of doctors, dentists and scientists that undertakes a diverse range of educational activities globally. The aim of the Academy is to disseminate information and exchange medical knowledge between professionals from diverse backgrounds working in a variety of healthcare settings. This is achieved by the provision of a number of attendance courses, publishing house, online resources and international events / competitions.

Courses (a selection):

Undergraduate:

- Final Year Medicine and Surgical Revision Courses
- Training the Clinical Anatomy Trainer
- Clinical Anatomy as Applied to Trauma and Emergency Medicine
- Surgical Anatomy of Important Operative Procedures
- Future Surgeons: Key Skills (RCSEd delivered)
- Structured Introduction to Surgical Skills

Postgraduate:

- MRCS Part A
- MRCEM Part A
- MRCS Part B OSCE
- DOHNS: Intensive Revision & OSCE
- Intercollegiate Basic Surgical Skills (RCSEd delivered)
- MRCP PACES Part 2
- FRCS (General Surgery) Exit Exam
- Cadaveric Ultrasound-Guided Musculoskeletal Intervention Course
- Ultrasound-Assisted Botulinum Toxin Injection for Neuromuscular Disorders
- Live Advanced Laparoscopic Colorectal Course



Forthcoming key events:

- International Medical Summer School
- International Academic and Research Conference
- World University Anatomy Challenge

Publications



publications.doctorsacademy.org

World Journal of Medical Education & Research



Peer-reviewed academic journal
with ISSN.

- No fee to view, read and download articles
- No subscription charges
- No submission fees
- No manuscript processing fee
- No publishing fee
- No cost to read, write or publish!

wjmer.co.uk

Online Revision Resources

DoctorExams consists of 1000s of questions with detailed explanations in MCQ, EMQ, SBA and SAQ formats. Questions are written by the Doctors Academy group of experienced clinicians and clinical academics, with mock exams and feedback on performance included to aid a candidate's focused revision of topics. Based on past exams, these questions are carefully crafted to suit the requirements of undergraduate students & postgraduate trainees undertaking relevant speciality exams.

Resources for:

- Medical Students
- Dental Students
- International Entrance Exams
- MRCS Exams
- General Surgery Exams
- Plastic Surgery Exams
- DOHNS Exams

www.doctorexams.co.uk

www.doctorsacademy.org